

At: Y Pwyllgor Busnes

Gan: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Dyddiad: Ionawr 2011

Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad: Arloesedd ym Musnes y Cyfarfod Llawn

Diben

1. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a) trefn y cwestiynau llafar;
- b) y balot ar gyfer y Ddadl Fer; ac
- c) busnes gan Aelodau'r meinciau cefn.

Amlinellir y cynigion hyn yn Rhan 1 o'r papur hwn.

2. Yn unol â nod yr Adolygiad o ganiatáu ar gyfer arloesedd a gwelliant yn y Rheolau Sefydlog, mae Rhan 2 o'r papur yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer creu cyfleoedd ar gyfer mathau mwy amrywiol o fusnes amserol yn y cyfarfod llawn i Reolwyr Busnes ei ystyried.

Cefndir

3. Ystyriodd y Rheolwyr Busnes gynigion ar gyfer arloesedd ym musnes y cyfarfod llawn ar 9 Hydref 2010 (BC(3)29-10 Papur 1, Rhan 2) a chytunodd i ystyried rhai cynigion ymhellach ar sail papurau briff mwy manwl a ddarperir gan yr Ysgrifenyddiaeth.

4. Ceir copi o'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn Rhan 1 o'r papur yn Atodiad A. Ceir 'fersiynau glân' o'r Rheolau Sefydlog perthnasol, sy'n cynnwys yr holl newidiadau arfaethedig, yn Atodiad B i'r papur hwn.

Rhan 1: Y Cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i Reolau Sefydlog

A) Trefn Cwestiynau Llafar

Cefndir

5. Pennir trefn cwestiynau llafar ar hyn o bryd yn unol â Rheol Sefydlog 7.54, sy'n nodi:

7.54 Rhaid penderfynu ar drefn cwestiynau llafar fel a ganlyn:

- (i) yn achos cwestiynau a dderbynnir cyn yr amser cau y cytunir arno gan y Pwyllgor Busnes ar y diwrnod cyntaf y caniateir iddynt gael eu cyflwyno, drwy hapddull;
- (ii) yn achos cwestiynau a dderbynnir ar ôl yr amser cau y cytunir arno gan y Pwyllgor Busnes ar y diwrnod cyntaf y caniateir iddynt gael eu cyflwyno, yn y drefn y deuant i law.

6. Mae pob Aelod yn gymwys i gyflwyno cwestiynau. Fodd bynnag, yn ôl arfer, nid yw aelodau'r Llywodraeth na'r Llywydd yn tueddu i ddefnyddio'r broses hon. Felly, yn ymarferol mae 45 o Aelodau yn gymwys i gyflwyno cwestiynau. Gall Aelodau gyflwyno dau gwestiwn i Weinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, felly'r nifer fwyaf o gwestiynau y gellir eu cyflwyno ar gyfer pob Gweinidog yw 90.

7. Gan mai amser cyfyngedig sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cwestiynau llafar, caiff trefn y cwestiynau ei bennu yn unol â Rheol 7.54, a chaiff y 15 cwestiwn uchaf yn y drefn eu dewis i'w hateb. Bydd unrhyw gwestiwn arall a gyflwynir ar gyfer y sesiwn hwnnw sy'n is na'r 15 uchaf yn methu ac ni chaiff ei ateb. Mae hyn yn arwain at wastraffu llawer o ymdrech ar ran Aelodau a staff.

Y Cynigion ar gyfer gwneud newidiadau

8. Nod y cynnig yw diwygio'r Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i'r Llywydd ddethol enwau'r Aelodau hynny y caniateir iddynt gyflwyno cwestiynau llafar yn gyntaf (ychwanegu Rheol Sefydlog 7.52A a 7.52B newydd; diwygio Rheol Sefydlog 7.53).

9. Wrth ddethol enwau'r Aelodau a gaiff gyflwyno cwestiynau i ddechrau, bydd nifer y cwestiynau a gyflwynir yn lleihau gan mai dim ond yr Aelodau hynny yn y 15 uchaf fydd angen cyflwyno cwestiynau. Bydd hyn yn arwain at broses symlach i Aelodau (a'r Swyddfa Gyflwyno). Yn ogystal, os bydd Aeloda yn gwybod ymlaen llaw eu bod wedi cael eu dethol i gyflwyno cwestiynau, caiff Aelodau fwy o amser i ystyried canolbwynt eu cwestiynau. Os bydd Aelod yn penderfynu nad yw am gyflwyno cwestiwn, hysbysir yr Aelod nesaf ar y rhestr i roi'r cyfle iddo gyflwyno cwestiwn (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda'r balot ar gyfer y Ddadl Fer).

10. Bach iawn yw'r newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog er mwyn hwyluso'r gweithdrefnau newydd. Hefyd, ni fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ganlyniad y broses: cyhoeddir yr un faint o gwestiynau i'r un amser cau; bydd yr un mor debygol i Aelodau gael eu dewis; a bydd gan y Llywodraeth yr un faint o amser i baratoi'r atebion/briff. Caiff y newidiadau gweithdrefnol gofynnol yn cael eu cynnwys yn y canllawiau i Aelodau - Egwyddorion a Gweithdrefn y Llywydd (Saesneg yn unig) - a bydd y swyddfa Gyflwyno yn parhau i reoli'r broses o ddydd i ddydd ar ran y Llywydd.

B) Y balot ar gyfer y ddadl fer*Cefndir*

11. O dan y gweithdrefnau presennol, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn cynnal balot bob wythnos (ar ran y Llywydd), gan ddethol enw'r Aelod a gaiff gynnig pwnc ar gyfer y Ddadl Fer yr wythnos ganlynol. Cynhelir y balot ar fore dydd Mawrth, a rhaid i'r Aelod llwyddiannus gyflwyno ei bwnc erbyn diwedd y diwrnod canlynol. Felly, dim ond dau ddiwrnod gwaith sydd gan Aelodau i ystyried a chyflwyno pwnc o'u dewis.

Cynigion ar gyfer gwneud newidiadau

12. Diben y newid mewn gweithdrefn yw rhoi mwy o rybudd i Aelodau rhwng dyddiad y balot ar gyfer y Ddadl Fer a'r dyddiad cau y mae'n rhaid iddynt gyflwyno pwnc o'u dewis. Prif ddiben y cynnig yw rhoi mwy o gyfle i Aelodau ymgynghori / ymgysylltu ag eraill wrth ystyried pwnc eu Dadl Fer a'r amser i ennyn mwy o ddiddordeb allanol yn y ddadl. Cynigiwyd hyn gan y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad (WCVA - SOR 10 a PAC - SOR 7).

13. Awgrymir y gellir rhoi hyd at 4 wythnos o rybudd i Aelodau o ddyddiad y balot hyd at ddyddiad y ddadl – gan ganiatáu tair wythnos ar gyfer ystyried a chyflwyno'r pwnc o'u dewis. Byddai dal yn ofynnol i Aelodau gyflwyno'r pwnc o'u dewis 5 diwrnod gwaith cyn y ddadl; ac felly ni fyddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar yr amser sydd ar gael i'r Llywodraeth baratoi ymateb.

14. Cynigir hefyd y dylid dileu'r gofyniad i gynnal y Ddadl Fer yn wythnosol yn y Rheolau Sefydlog (diwygio Rheol Sefydlog 6.4). Yn hytrach, gallai'r Pwyllgor Busnes ei gynnwys yn yr amserlen 6 mis amlinellol ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn (Rheol Sefydlog 6.9 newydd, fel y trafodwyd ar 2 a 9 Tachwedd; fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 6.1 bresennol) a fyddai'n pennu pryd y cynhelir y Ddadl Fer.

15. Er mwyn sicrhau y caiff amser ei neilltuo ar gyfer y Ddadl Fer yn ystod blwyddyn Cynulliad, cynigir y dylid gwneud darpariaeth o dan Reol Sefydlog 6.21 newydd (fel y trafodwyd ar 2 a 9 Tachwedd; fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 7.63 bresennol) i sicrhau bod amser ar gael ar gyfer y Ddadl Fer.

16. Nid oes angen i'r Rheolau Sefydlog adlewyrchu'r cyfnodau penodol o amser; yn hytrach, cânt eu cynnwys yn nogfen y Llywydd sef 'Principles and Practice'. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn parhau i reoli'r broses o ddydd i ddydd ar ran y Llywydd.

C) Busnes a gyflwynir gan Aelodau o'r meinciau cefn

Cefndir

17. Wrth lansio'r Adolygiad o Reolau Sefydlog, cytunodd y Rheolwyr Busnes mai un o'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r Rheolau Sefydlog yw bod gan Aelodau unigol y cyfle i gyflwyno busnes a dylanwadu arno. Cafwyd galwadau hefyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus i gynyddu cyfleoedd i Aelodau o'r meinciau cefn o bob un o'r pleidiau, gan gynnwys Aelodau annibynnol, gyflwyno busnes (Yr Athro Laura McAllister a Dr Diana Stirbu – SOR 8) ac yn ystod y drafodaeth yn y Pierhead ar yr Adolygiad o Reolau Sefydlog (Gorffennaf 2010).

18. Ar 9 Tachwedd, cytunodd y Rheolwyr Busnes eu bod am ystyried cynigion pellach ar y mater hwn er mwyn rhoi mwy o amrywiaeth o ran y cyfleoedd ar gyfer busnes y meinciau cefn i ategu'r Ddadl Fer. Y prif ddull i Aelodau'r meinciau cefn gyflwyno dadl ar hyn o bryd yw trwy gynigion heb ddyddiad trafod.

19. Gall Aelodau'r meinciau cefn gyflwyno cynnig heb ddyddiad trafod a cheisio caniatâd y Pwyllgor Busnes i neilltuo amser yn y cyfarfod llawn i'w trafod. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, dim ond tri chynnig o'r math hwn a gyflwynwyd ac y neilltuwyd amser ar eu cyfer gan y Pwyllgor Busnes. Cyflwynwyd y tri chynnig gyda chefnogaeth drawsbleidiol.

Y newidiadau y cytunwyd arnynt hyd yn hyn

20. Fel rhan o'r Adolygiad o Reolau Sefydlog, cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor ar 2 Tachwedd 2010 i alluogi Aelodau i ychwanegu eu henwau at welliannau neu gynigion a gyflwynwyd os ydynt am nodi eu cefnogaeth. Yn y dyfodol, gellir defnyddio'r dull hwn i roi cefnogaeth i unrhyw gynnig gan unrhyw Aelod o'r meinciau cefn (yn debyg i'r dull a ddefnyddir ar gyfer Datganiad Barn). Yna, byddai'r Pwyllgor Busnes yn gallu neilltuo amser i drafod cynnig o'r math hwn, ar sail meini prawf penodol y gallai'r Pwyllgor Busnes eu pennu (e.e. lefel a natur y gefnogaeth y mae wedi'i ennyn, diddordeb y cyhoedd yn y pwnc neu amseroldeb cymharol y pwnc).

21. Ym mis Chwefror 2009, rhoddwyd cynigion gerbron y Pwyllgor Busnes i ystyried Datganiadau Barn yn ystod y cyfarfod llawn (gweler cofnodion 10 Chwefror 2009 – BC(3)05-09). Rhan o'r atyniad o ddefnyddio Datganiadau Barn fel cyfrwng ar gyfer busnes y meinciau cefn oedd y byddai'n caniatáu i lefel y gefnogaeth gan Aelodau gael ei defnyddio fel maen prawf ar gyfer dethol. O gofio y bydd Aelodau yn y Cynulliad nesaf erbyn hyn yn gallu nodi eu cefnogaeth ar gyfer cynigion heb ddyddiad trafod, rhagdybir nad yw'r pwyllgor Busnes am ailedrych ar y cynigion a gyflwynwyd yn 2009.

Cynigion ar gyfer newidiadau pellach

22. Efallai y bydd y Rheolwyr Busnes am ystyried darparu dulliau pellach (yn ogystal â'r rheini a amlinellir ym mharagraff 20 uchod) lle y caiff amser ei neilltuo ar gyfer Aelodau'r meinciau cefn neu y cânt eu dewis i gyflwyno pwnc i'w drafod.

23. Er mwyn sicrhau y caiff amser ei neilltuo ar gyfer trafodaethau o'r fath yn ystod blwyddyn Cynulliad, cynigir gwneud darpariaeth o dan Reol Sefydlog 6.21 newydd (fel y trafodwyd ar 2 a 9 Tachwedd; fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 7.63 bresennol) i'w gwneud yn ofynnol bod amser ar gael ar gyfer cynigion a wneir gan Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth.

24. Pe bai'r Cynulliad angen cadarnhad o'r adeg y gellid cynnal trafodaethau o'r fath, byddai'n bosibl neilltuo amser ar gyfer busnes y meinciau cefn bob hyn a hyn yn rheolaidd (e.e. unwaith yr wythnos, unwaith y pythefnos ac ati). Gellid pennu amser yn amserlen amlinellol y cyfarfod llawn a gaiff ei chyhoeddi gan y Pwyllgor Busnes yn y Pedwerydd Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 6.9 newydd (fel y trafodwyd ar 2 a 9 Tachwedd: fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 6.1 bresennol).

25. Pe bai'r Pwyllgor Busnes am fabwysiadu dull mwy systematig, gallai'r Llywydd, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes, gynnal balot o enwau Aelodau'r meinciau cefn bob nawr ac yn y man i ddethol pwnc i'w drafod. Gallai trefniadau ar gyfer balot o'r math hwn adlewyrchu'r rheini sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y Ddadl Fer a deddfwriaeth arfaethedig Aelod (Rheol Sefydlog 7.22B newydd). O gofio'r nifer isel iawn o gynigion gan Aelodau'r meinciau cefn yn y Cynulliad hwn (tri) a'r ffaith bod pob un wedi'i gyflwyno gyda chefnogaeth drawsbleidiol, gellid defnyddio balot achlysurol i annog mathau ychydig yn wahanol o fusnes y meinciau cefn. Er enghraifft, gallai godi ymwybyddiaeth, a thrwy hynny annog cynigion y meinciau cefn i gael eu cyflwyno os bydd y lefel isel bresennol yn parhau; gellid ei ddefnyddio i gyflwyno amrywiaeth ym musnes y Cynulliad yn y dyddiau cynnar lle bydd ychydig o alw am amser i drafod adroddiadau pwyllgorau; a gallai ganiatáu i Aelodau unigol gael amser i drafod cynigion o sylwedd hyd yn oed os na allant ddenu chefnogaeth Aelodau neu bleidiau eraill. Felly, gallai'r balot gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â threfniadau presennol i'r Pwyllgor Busnes neilltuo amser ar gyfer unrhyw gynig heb ddyddiad trafod i'w drafod yn y cyfarfod llawn.

Rhan 2: Opsiynau ar gyfer busnes amserol yn y cyfarfod llawn

Cefndir

26. Gofynnodd y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Reolau Sefydlog am ragor o gyfleoedd ar gyfer busnes amserol yn y Siambr (Dr Ruth Fox, Cymdeithas Hansard – SOR11). Nodwyd cynyddu amseroldeb at ddiben cynnwys y cyhoedd a'r cyfryngau ym musnes y Siambr hefyd yn ystod y

drafodaeth a gynhaliwyd yn y Pierhead ar yr Adolygiad o Reolau Sefydlog (Gorffennaf 2010). Mae hon yn thema sydd o ddiddordeb mewn mannau eraill hefyd, er enghraifft mewn araith i Gymdeithas Hansard yn 2009¹ nododd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ei fod yn disgwyl caniatáu, ar gyfartaledd, un cwestiwn brys ar gyfer pob wythnos eistedd i'r perwyl hwn.

27. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried ymhellach gyflwyno cyfle ar gyfer busnes amserol.

Cynigion i'w hystyried

28. Yn ogystal â dulliau presennol ar gyfer busnes amserol (cwestiynau brys, dadleuon brys a datganiadau'r llywodraeth), efallai y bydd y Rheolwyr Busnes am ystyried y dulliau a ddefnyddir mewn deddfwrfeydd eraill i annog busnes amserol. Gan mwyaf, mae dulliau o'r fath yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer cwestiynau a busnes y meinciau cefn. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn isod.

Cwestiynau amserol

29. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cwestiynau amserol mewn seneddau a chynulladau eraill yn amrywio yn ôl y ffactorau a ganlyn:

(i) Trefnu amserlen

Mae rhai deddfwrfeydd yn darparu eitem annibynnol ar gyfer gofyn cwestiynau amserol (e.e. Cynulliad Taleithiau Jersey). O dan amgylchiadau o'r fath, bydd Gweinidogion yn cymryd eu tro i ateb, a bydd hyn y aml yn cynnwys y Prif Weinidog. Mewn Seneddau eraill, trefnir amser ar gyfer cwestiynau amserol ar ddiwedd cwestiynau safonol y Gweinidogion (e.e. Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin). Mewn seneddau lle nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer cwestiynau llafar, bydd pob Gweinidog yn bresennol er mwyn ateb unrhyw gwestiwn sy'n berthnasol i'w bortffolio (e.e. Senedd a Thŷ'r Cynrychiolwyr yn Awstralia a Senedd a Thŷ'r Cyffredin yng Nghanada).

(ii) Cyflwyno cwestiynau

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni chaiff cwestiynau eu cyflwyno ymlaen llaw. Caiff Aelodau eu dethol fel arfer ar ôl cyflwyno eu henw yn y balot perthnasol. Dull amgen yw caniatáu ffenestr gyflwyno fyrrach ar gyfer cwestiynau amserol o'i gymharu â chwestiynau cyffredinol (e.e. caiff cwestiynau cyffredinol eu cyflwyno 5 diwrnod gwaith ymlaen llaw

¹ John Bercow, "[Parliamentary Reform: From here to there](#)", Araith gan Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, Cymdeithas Hansard, 24 Medi 2009

ond caiff cwestiynau amserol eu cyflwyno ddiwrnod neu ddau ymlaen llaw yn unig).

(iii) Dethol Aelodau

Mae'r arfer yn amrywio o ran sut y caiff Aelodau eu dethol i ofyn cwestiynau amserol. Mewn rhai deddfwrfeydd, caiff enwau eu dethol ar hap mewn balot (e.e. Tŷ'r Cyffredin yn y DU); bydd eraill yn gadael i'r cadeirydd ddethol yr enwau yn ôl ei ddisgresiwn (e.e. Senedd Awstralia) neu i drefn hierarchaeth y pleidiau (e.e. Tŷ'r Cyffredin yng Nghanada).

30. Pe bai'r Rheolwyr Busnes am fynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer cwestiynau amserol, byddai angen ystyried ymhellach y modelau a'r opsiynau amrywiol ar gyfer cyflwyno a dethol Aelodau i ofyn cwestiynau.

Datganiadau

31. Mae gweithdrefnau ar waith yng Nghanada, Gogledd Iwerddon, Awstralia ac India i unrhyw Aelod wneud araith (ar gyfer amrywiaeth o amserau penodol) godi materion sydd o ddiddordeb i etholwyr a / neu'r cyhoedd yn gyffredinol.

32. Yng Nghanada, mae pob Aelod o'r meinciau cefn yn gymwys i siarad am ddim mwy na munud i wneud datganiad ar faterion cyfoes a thrwy hynny amlygu cwestiynau neu faterion sy'n destun pryder. Caiff y pymtheng munud cyntaf o bob eisteddiad yn y Senedd, cyn y cwestiynau llafar, ei neilltuo ar gyfer Aelodau at y diben hwn. Bydd y Llefarydd yn dethol Aelodau ar sail y rhestri a ddarperir gan y chwipiau ac yn galw Aelodau yn eu tro yn ôl eu plaid.

33. Awgrymodd Dr Ruth Fox o Gymdeithas Hansard yn ei hymateb i'r Adolygiad o Reolau Sefydlog efallai y bydd y Cynulliad am ystyried cyflwyno fersiwn o'r model hwn. Awgrymodd sesiwn 15 munud, wedi'i rhannu'n dri datganiad o ddim mwy na phum munud, a hynny i ganiatáu i Aelodau godi materion sydd o bryder /pwysigrwydd ar y diwrnod ond nad ydynt o reidrwydd o'r un lefel â busnes 'brys' fel y'i diffinnir yn y Rheolau Sefydlog presennol. Byddai angen diwygio ymhellach unrhyw ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â datganiadau a busnes yn y cyfarfod llawn y cytunwyd arnynt eisoes gan y Pwyllgor Busnes er mwyn caniatáu ar gyfer y datblygiad hwn.

34. Efallai y bydd angen ystyried cwmpas posibl yr opsiynau a amlinellir ym mharagraffau 29-33 - a'r gwaith manwl y bydd angen ei wneud er mwyn cyflwyno gweithdrefnau perthnasol i'w cyflawni - am fwy o amser na'r hyn sydd ar gael fel rhan o'r adolygiad presennol o Reolau Sefydlog. Felly, cynigir y dylai'r

Pwyllgor Busnes presennol argymell y dylid cyfeirio'r opsiynau a amlinellir yn Rhan 2 o'r papur hwn i'r Pedwerydd Cynulliad i'w hystyried ymhellach.

Argymhelliad

35. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i:

- (i) roi sylwadau a chytuno'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a bennir yn Rhan 1 ac Atodiad A sy'n ymwneud â:
 - a) trefn cwestiynau llafar;
 - b) y balot ar gyfer y Ddadl Fer; a
 - c) busnes a gyflwynwyd gan Aelodau o'r meinciau cefn; a
- (ii) cytuno ar y cynnig ym mharagraff 34 i gyfeirio'r gwaith o ystyried cyflwyno cyfleoedd pellach ar gyfer busnes amserol i'r Pedwerydd Cynulliad.